RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU 2017-18

Mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, gan gydymffurfio gyda Rhan 8 (adrannau 141 i 160) ac atodlenni 2 a 3 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, gynhyrchu rhestr taliadau yn flynyddol y mae'n bwriadu eu gwneud i aelodau ac aelodau cyfetholedig.

Gellir galw'r rhestr hon yn Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a bydd yn weithredol o 8 Mai 2017.

Cyflog Sylfaenol

Y cyflog blynyddol sylfaenol fydd £13,400.

Cyflog Uwch (yn cynnwys Cyflog Sylfaenol)

(a) Ar gyfer 2016/17 caiff Cyflog Uwch ei dalu i'r Cynghorwyr hynny sydd â chyfrifoldebau arbennig yng nghyswllt yr awdurdod a nodir yn Atodiad 1 y rhestr hon. Ni fydd nifer y Cyflogau Uwch yn fwy na 17.

(b) Bydd swm pob cyflog o'r fath y swm a nodir yn Atodiad 1.

Taliadau Aelodau Cyfetholedig

Mae ffi ddyddiol (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod) yn daladwy i Aelodau Cyfetholedig gyda hawliau pleidleisio.

Mae'r ffioedd ar gyfer 2017/18 fel sy'n dilyn:

Cadeirydd Cyfetholedig, Pwyllgor Safonau	£256 ffi ddyddiol
Cadeirydd Cyfetholedig, Pwyllgor Archwilio	(£128 am ½ diwrnod)
Aelod Cyffredin Cyfetholedig	£198 ffi ddyddiol
	(£99 am ½ diwrnod)

Ar gyfer dibenion talu diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel bod hyd at 4 awr gyda diwrnod llawn dros 4 awr.

Mae'r taliadau ar gyfer amser cyfarfod yn unig ac maent yn cynnwys amser a dreuliwyd yn paratoi a theithio. Mae cap ar y ffioedd o uchafswm o gyfwerth â 10 diwrnod y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y gall unigolyn gael ei gyfethol iddo.

Ad-dalu Costau Gofal

Bydd gan Aelodau ac Aelodau cyfetholedig (gyda hawliau pleidleisio) hawl i dderbyn ad-daliad am gost gofal yng nghyswllt treuliau am drefnu gofal plant neu ddibynyddion ac ar gyfer anghenion cymorth personol, a wneir o reidrwydd oherwydd ymgymryd â dyletswyddau fel Cynghorydd.

Mae uchafswm yr ad-daliad yn £403 y mis a dim ond pan ddangosir derbynebau gan y gofalwyr y caiff ei dalu.

Absenoldeb Teuluol

Mae gan aelodau hawl dan ddarpariaethau Rheoliadau Absenoldeb Teulu i Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teuluol, pryd mae ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod os ydynt yn bodloni'r amodau a nodwyd.

Pan fydd Aelodau'n cymryd absenoldeb teuluol mae ganddynt hawl i gadw cyflog beth bynnag yw eu hanes presenoldeb yn union cyn dechrau absenoldeb teulu.

Os yw'r awdurdod yn cytuno fod angen gwneud penodiad dirprwy i lanw dros absenoldeb teulu cynghorydd sy'n derbyn cyflog uwch, bydd yr Aelod sy'n dirprwyo yn gymwys i gael cyflog uwch os yw'r awdurdod yn penderfynu felly.

Os yw talu cyflog uwch i ddirprwy yn golygu bod gan yr awdurdod nifer fwy na'r uchafswm a ganiateir o gyflogau uwch, caniateir ychwanegiad i'r uchafswm dros gyfnod y ddirprwyaeth.

Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

Gall pob Aelod hawlio ad-dalu treuliau ar gyfer teithio a chynhaliaeth a wnaed o reidrwydd wrth ymgymryd â busnes swyddogol ar gyfer y Cyngor. Mae Atodiad 2 yn rhoi manylion busnes swyddogol perthnasol.

Dylid cyflwyno hawliadau am deithio a chynhaliaeth o fewn dau fis o ddyddiad yr hawliad a dim ond pan ddangosir derbynebau yn dilyn y costau gwirioneddol a wnaed y cânt eu had-dalu, ac eithrio hawliadau am filltiroedd lle mae cyfraddau penodol yn weithredol.

Bydd terfynau penodol ar ad-dalu cynhaliaeth a dim ond pan fydd angen i aelod deithio tu allan i ffiniau'r sir y caiff cynhaliaeth ei ad-dalu.

Mae Anecs 3 yn rhoi manylion cyfraddau'r filltir a'r uchafswm cyfraddau ar gyfer cynhaliaeth.

Pensiynau

Mae gan bob Aelod hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Mae'r cyflog sylfaenol a'r uwch gyflog yn bensiynadwy.

Ildio cyflogau, lwfansau neu ffioedd

Gall unrhyw Aelod, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig, i'r Prif Swyddog Cyllid, ddewis ildio unrhyw ran o'u hawl i gyflog, lwfans neu ffi.

Hawliadau Rhan-blwyddyn

Gall hawliadau i gyflog, lwfans neu ffioedd ei addasu ar sail ddyddiol lle:

(a) Mae unigolyn yn dod, neu'n peidio bod, yn Aelod neu'n Aelod Cyfetholedig neu lle mae eu cyfrifoldebau arbennig yn newid.

(b) Y caiff unigolyn ei wahardd neu ei wahardd yn rhannol o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau'r aelod/aelod cyfetholedig dan sylw,

(c) Os caiff y rhestr hon ei newid fel bod newid mewn cyflogau, lwfansau neu ffioedd unigol

(ch) Bydd achlysuron pan na fydd yn briodol gwneud y taliad llawn ar 15fed y mis. Bydd hyn fel arfer yn digwydd yn ystod mis Mai oherwydd y gellir ailddyrannu cyfrifoldebau arbennig yn y Cyfarfod Blynyddol.

Lle mae newidiadau yn arwain at ordaliad, gwneir trefniadau i adennill y swm dan sylw ac i'r gwrthwyneb lle mae newidiadau yn arwain at fod angen ôl-daliad, caiff hyn ei brosesu o fewn y cyflog talu nesaf sydd ar gael.

Taliadau

Fel arfer gwneir taliadau ar 15fed diwrnod pob mis.

Cyflogau Sylfaenol ac Uwch

Fel arfer gwneir taliadau mewn rhandaliadau o ddeuddegfed y swm a nodir yn y rhestr hon. Caiff y taliadau eu gwneud yn awtomatig ac nid oes angen i Aelod gyflwyno hawliad.

Lle byddai talu deuddegfed ran y swm yn arwain at i'r Aelod dderbyn mwy na'r swm y mae ganddo ef neu hi hawl iddo, cyfyngir y taliad i swm o'r fath fydd yn sicrhau na chaiff dim mwy na'r swm y mae ganddo ef neu hi hawl iddo.

Lle mae cymeradwyaeth neu amrywiad y cynllun yn rhannol ôl-weithredol, gwneir taliad ôl-ddyddiedig i ddod â'r taliadau yn gyfredol.

Taliadau i Aelodau Cyfetholedig

Yn yr un modd gwneir taliadau i aelodau cyfetholedig ar sail fisol ar ôl derbyn ffurflen hawlio wedi'i llenwi yn rhoi manylion presenoldeb mewn cyfarfodydd.
Dylid cyflwyno hawliadau i'r Adran Gyflogres erbyn 1af y mis i sicrhau y gwneir taliad ar y 15fed. Yn ychwanegol dylid derbyn hawliadau o fewn dau fis o'r diwrnod y mae'r hawliad yn cyfeirio ato.

Teithio a Chynhaliaeth

Dylid cyflwyno Teithio a Chynhaliaeth o fewn dau fis o'r dyddiad y mae'r hawliad yn cyfeirio ato.
I sicrhau taliad ar 15fed y mis dylid cyflwyno hawliadau at yr Adran Gyflogres erbyn diwrnod 1af y mis a nodir.

Datganiad

Mae gan Gyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent ddatganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd a disgrifiadau rôl deiliaid cyflogau uwch. Caiff cofnodion o bresenoldeb cynghorwyr eu cadw hefyd. Ar gyfer 2017/18, caiff adroddiadau blynyddol eu paratoi gan aelodau etholedig a chyhoeddir hyn ar wefan y Cyngor.

Anecs 1

Rhestr Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig (yn cynnwys Cyflog Sylfaenol)

Caiff y dilynol eu nodi fel y swyddi y gall cyflog uwch fod yn daladwy amdanynt a'r swm blynyddol cyfwerth a weithredir o 8 Mai 2017:-

	Cyflog Uwch £
Arweinydd y Cyngor	43,100
Dirprwy Arweinydd	30,100
Aelod Gweithrediaeth	23,500
Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu	20,100
Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio	20,100
Cadeirydd Pwyllgor Trwyddedu	20,100
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio*	20,100
Arweinydd y Grŵp Gwrthblaid mwyaf	22,100

*Mae cadeirydd presennol y pwyllgor Archwilio yn aelod cyfetholedig felly nid oes unrhyw hawl i gyflog uwch ond byddai'n derbyn y gyfradd ddyddiol berthnasol.

Atodiad 2

Diffiniad Busnes Swyddogol

Mae Busnes Swyddogol yn golygu:

a. Mynychu cyfarfod yr Awdurdod neu unrhyw Bwyllgor o'r Awdurdod, neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn gwneud apwyntiadau neu enwebiadau iddo, neu unrhyw Bwyllgor corff o'r fath.

b. Mynychu cyfarfod unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r awdurdod yn aelod ohono.

c. Mynychu unrhyw gyfarfod arall, y cafodd cynnal y cyfarfod ei awdurdodi gan yr awdurdod, neu gan bwyllgor o'r awdurdod neu gydbwyllgor o'r awdurdod ac un neu fwy o awdurdodau eraill.

d. Mynychu unrhyw ddigwyddiad hyfforddiant neu ddatblygu a gymeradwywyd gan yr awdurdod neu ei weithrediaeth.

e. Dyletswydd a gynhaliwyd ar gyfer y diben neu mewn cysylltiad gyda gweithredu swyddogaethau aelod gweithrediaeth.

f. Dyletswydd a wneir mewn cysylltiad gyda gweithredu swyddogaeth yr awdurdod sy'n grymuso neu sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod archwilio neu awdurdodi archwilio safle.

g. Unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwywyd gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd arall o ddosbarth a gymeradwywyd felly, a wneir ar gyfer y diben neu mewn cysylltiad gyda gweithredu swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau.

Atodiad 3

Cyfraddau Teithio a Chynhaliaeth ar gyfer 2017-18

1. Mae'r **cyfraddau fesul milltir** y gellir eu hawlio ar gyfer teithio yn gyson gyda chyfraddau a gymeradwywyd gan HMRC fel sy'n dilyn:-

Ceir/Faniau preifat	
Fesul milltir 10,000 milltir gyntaf	45c
Fesul milltir dros 10,000 milltir	25c
Atodiad teithwyr fesul milltir	5c y teithiwr
Beiciau Modur Preifat	
Fesul milltir	24c
Beiciau	
Fesul milltir	20c

2. Uchafswm **cyfraddau cynhaliaeth** y gellir eu hawlio:

Lwfans Diwrnod	£28 y diwrnod
Dros nos - Llundain	£200
Dros nos - mannau eraill	£95
Dros nos - aros gyda ffrindiau	£30

Bydd ad-daliad cynhaliaeth ar sail yr union gostau, a gefnogir gan dderbynebau, hyd at yr uchafswm uchod.

Atodiad 4

Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar gyfer Blwyddyn Fwrdeisiol 2017-18

	AELODAU Â HAWL I GYFLOG SYLFAENOL	SWM BLYNYDDOL CYFLOG SYLFAENOL
	Yr aelodau etholedig a enwir yn ddilynol o'r awdurdod:- 1. J P. Morgan 2. A. Moore 3. K. Rowson 4. R J. Hill 5. B. Thomas 6. M. Day 7. J. Wilkins 8. M. Cook 9. R. Summers 10. G. Paulsen 11. K. Pritchard 12. J. Holt 13. N L. Parsons 14. J. Collins 15. G A. Davies 16. S. Healy 17. J. Millard 18. P J. Edwards 19. G. Thomas 20. G L. Davies 21. L. Winnett 22. D. Bevan 23. T. Sharrem ***** 24. K. Hayden 25. J C. Morgan ***** 26. P. Baldwin ***** 27. D. Wilkshire 28. M. Cross ***** 29. T. Smith 30. B. Willis	£13,400
	****Dynodi ildio swm o £125 y flwyddyn***	

	HAWL CYFLOG UWCH (yn cynnwys cyflog sylfaenol)		SWM BLYNYDDOL CYFLOG UWCH
	RÔL	**AELOD**	**£**
1	Arweinydd - Aelod Gweithrediaeth - Gwasanaethau Corfforaethol	N. Daniels	£43,100 (Ildiodd £5,000 y flwyddyn)
2	Dirprwy Arweinydd / Aelod Gweithrediaeth - Amgylchedd	G. Collier	£30,100 (Ildiodd £3,000 y flwyddyn)
3	Aelod Gweithrediaeth – Addysg	C. Meredith	£23,500 (Ildiodd £125 y flwyddyn)
4	Aelod Gweithrediaeth – Adfywio a Datblygu Economaidd	D. Davies	£23,500
5	Aelod Gweithrediaeth – Gwasanaethau Cymdeithasol	J. Mason	£23,500
6	Cadeirydd Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol	L. Elias	£20,100
7	Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu	H. Trollope	£20,100
8	Cadeirydd Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd, Adfywio a Datblygu Economaidd	M. Holland	£20,100
9	Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio	D. Hancock	£20,100
10	Cadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol	W. Hodgins	£20,100
11	Arweinydd yr Wrthblaid / Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol	S. Thomas	£22,100 (Ildiodd £180 y flwyddyn)
Gellir talu uchafswm o 17 cyflog uwch ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac ni aethpwyd dros y nifer hwn.			

HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL		SWM LWFANSAU AELODAU CYFETHOLEDIG
RÔL	**AELOD**	
Cadeirydd Pwyllgor Safonau	R. Alexander	£256 Ffi ddyddiol £128 ffi ½ diwrnod
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio	P. Williams	£256 Ffi ddyddiol £128 ffi ½ diwrnod
Aelodau Cyfetholedig Statudol - Pwyllgor Safonau	H. Roberts E. Hackling J. Price J. Evans	£198 Ffi ddyddiol £99 ffi ½ diwrnod
Aelodau Cyfetholedig Statudol - Pwyllgor Archwilio		£198 Ffi ddyddiol £99 ffi ½ diwrnod